# Cyngor Cymuned Bodedern

## Rheolau Mynwent y Plwyf Bodedern

Cyngor Cymuned Bodedern sy’n berchen ac yn gyfrifol am y fynwent. Mae’r rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod y fynwent yn lle diogel i ymweld â hi ac i gynorthwyo i’w chadw yn daclus. Mae angen caniatâd a thâl priodol am unrhyw waith a wneir o fewn y fynwent.

Mae’r Clerc yn gweithio ar ran y Cyngor Cymuned ac mae angen caniatâd ymlaen llaw ganddo/ganddi ar gyfer:-

a) Claddedigaethau neu ddatgladdiadau

b) Gwasgaru neu gladdu llwch

c) Codi neu osod cofeb

ch) Arysgrif ar gofeb

d) Adnewyddu cofeb

dd) Tynnu a / neu amnewid cofeb

Mae copi o’r Rheoliadau hyn a’r ffioedd cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor Cymuned.

Cydymffurfir â Gorchymyn Awdurdodau Lleol Mynwentydd 1977.

### YMDDYGIAD

a) Ni chaiff neb fynd i mewn neu geisio gadael y fynwent ond drwy’r prif fynedfeydd.

b) Ni chaiff neb dorri ar draws neu achosi oedi gyda chladdedigaeth oherwydd eu hymddygiad ac ni ddylai unrhyw berson rwystro, aflonyddu ar neu chythruddo unrhyw berson sy’n gyfreithlon yn defnyddio’r fynwent.

c) Ni chaiff neb ddinistrio yn fwriadol neu niweidio unrhyw fedd, cofeb, wal, ffens, coed, planhigion neu lwyn yn y fynwent.

ch) Ni chaiff neb farcio neu anffurfio unrhyw gofeb, wal neu ffens yn y fynwent, neu osod unrhyw bapur, hysbyslen neu arwydd.

d) Gwaherddir pob cerbyd o’r fynwent ei hun ac eithrio cerbydau contractwyr a cherbydau’r anabl.

dd) Ni chaniateir mynd â beic na sgwter i fewn i’r fynwent ac eithrio sgwter anabl.

e) Ni chaniateir cŵn yn y fynwent ac eithrio cŵn y deillion.

f) Ni chaniateir plant dan 16 yn y fynwent oni bai eu bod o dan ofal oedolyn cyfrifol. Gwaherddir defnyddio’r fynwent fel man i blant chwarae.

ff) Os gwneir difrod yn y fynwent, bydd y sawl sy’n ei achosi yn gyfrifol am y gost o atgyweirio.

## BEDDAU

Y Trefnydd Angladdau fydd yn penodi a chyflogi ymgymerwr i agor a chau'r beddau ac yn gyfrifol am gyflogi gweithwyr ac am eu diogelwch. Rhaid diogelu'r beddau nesaf wrth agor bedd newydd a gosod gorchudd priodol ar y beddau hynny i osgoi niwed gan bridd. Gall y Cyngor ofyn am asesiad risg ffurfiol a datganiad am y dull gweithio ynghyd â chopi o bolisi atebolrwydd cyhoeddus yr ymgymerwr gan y Trefnydd Angladdau.

Dylai pob plot ar gyfer claddedigaeth ddarparu ar gyfer arch sy'n 7 troedfedd (2.14 m) o hyd, 3 troedfedd (0.92 m) o led ac 8 troedfedd (2.44m) o ddyfnder, hynny yw bedd newydd ar gyfer tair claddedigaeth.

Rhaid rhoi rhybudd os yw'r arch yn fwy na'r mesuriadau hyn ac efallai y bydd ffi ychwanegol yn daladwy.

Ni ellir prynu plot ar gyfer bedd ymlaen llaw.

## DATGLADDU

Ni chaiff unrhyw weddillion eu datgladdu heb cael cymeradwyaeth benodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Cyngor Cymuned.

## RHYBUDD O GLADDEDIGAETH

Rhaid i hysbysiad o gladdediageth fod ar y ffurflen a ddarperir gan y Cyngor Cymuned. Rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau a dderbynnir dros y ffôn gael eu cadarnhau cyn gynted ag y bo modd a beth bynnag o fewn saith diwrnod, os yn bosib, i'r gladdedigaeth.

Rhaid i bob hysbysiad ddatgan:

a) Enw, cyfeiriad ac oedran llawn yr ymadawedig

b) Dyddiad a lleoliad y farwolaeth.

c) Diwrnod, dyddiad ac amser y gladdedigaeth

ch) Manylion y bedd, gan gynnwys ei ddyfnder a'i rif.

d) Manylion y prynwr presennol

Rhaid i'r gwaith papur perthnasol, tystysgrif marwolaeth â'r taliad, gael eu derbyn gan y clerc o leiaf dau ddiwrnod cyn y gladdedigaeth.

## CLADDEDIGAETH

Gall claddedigaethau ddigwydd ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos ac eithrio Dydd Sul.

Perthnasau neu gyfeillion yr ymadawedig fydd yn gyfrifol am wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal unrhyw wasanaeth claddu. Gall unrhyw weinidog, neu unrhyw un a awdurdodwyd gan deulu yr ymadawedig weinyddu yn y fynwent, ar yr amod bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal gyda pharch.

Rhaid i'r person sydd yn gyfrifol am wneud gwaith yn y fynwent sicrhau fod y pridd ar ôl agor bedd, ag eithro ychydig i roddi ar y beddau pan maent wedi gostwng, cerrig, defnyddiau adeiladu ac

ysbwriel arall eu clirio o’r fynwent a bod y fynwent yn cael ei gadael yn daclus. Rhaid i bob difrod a wneir gael ei atgyweirio’n ddi-oed gan bwy bynnag a fu’n gyfrifol amdano.

Tra bydd bedd yn agored mae’n angenrheidiol ei orchuddio’n ddigonol hyd at adeg y gladdedigaeth fel nad oes risg iechyd a diogelwch i’r cyhoedd.

## COFEBION

Ni chaniateir i garreg fedd fod dim uwch na 42 modfedd, lletach na 36 modfedd a hirach na 24 modfedd.

Ni chaniateir cerbiau o amgylch bedd, oni bai fod y bedd mewn rhes ble mae cofeb gyda cherbiau yno eisioes.

Ni chaniateir gosod carreg fedd am o leiaf 6 mis yn dilyn claddedigaeth er mwyn sicrhau bod y bedd wedi sefydlogi. Rhaid gofyn am ganiatâd gan y clerc ymlaen llaw.

Ni chaniateir gwneud gwaith naddu na thrwsio cofebion y tu fewn i’r fynwent (oni bai bod y gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y cofebion yn saff). Bydd yn rhaid cludo’r holl ddeunyddiau a chofebion o’r fynwent wrth baratoi am gladdedigaeth gan sicrhau na ddifrodir beddau na nodwedd arall yn y fynwent.

Bydd unrhyw botiau, blodau, cerfluniau, planhigion ayyb a adewir ar feddau yn cael eu gadael ar risg y perchennog.

## CYNNAL A CHADW BEDDAU

Y teulu sy’n gyfrifol am gynnal a chadw y bedd a’r garreg. Disgwylir iddynt wneud hyn er mwyn cynorthwyo’r Cyngor i gadw’r fynwent yn daclus.

Ni chaniateir i’r cyhoedd blannu unrhyw blanhigion o gwmpas y bedd nac ychwaith osod nodweddion ar y tir o flaen y garreg am fod hyn yn ahosi rhwystr wrth dorri gwair.

Ni chaniateir i’r cyhoedd ddefnyddio chwynladdwr o fewn ffiniau’r fynwent,

Ni chaniateir rhoi golau o unrhyw fath ar neu o gwmpas unrhyw fedd.

Ni chaniateir defnyddio peiriannau torri gwair neu beiriannau eraill gan deuluoedd neu ymwelwyr yn y fynwent.

Rhaid rhoi sbwriel a blodau wedi marw yn y biniau a ddarparwyd.

## RHEOLAU CYFFREDINOL

Ni chaniateir gosod meinciau cofeb yn y fynwent.

Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau neu ddifrod i unrhyw gofeb a achoswyd gan fandaliaeth, storm, gwynt, goleuadau, ymsuddiant, cynnal a chadw tiroedd cyffredinol neu unrhyw achos sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, oni bai y gellir profi i’r difrod gael ei wneud wrth dorri bedd neu wrth wneud gwaith cynnal a chadw. Cynghorir perchnogion cofebion i gael yswiriant priodol yn erbyn lladrad neu ddifrod.

Os oes bedd yn cael ei agor wrth ymyl bedd arall gall rwbel gael ei adael ar eich plot chi am gyfnod. Gall hyn eich atal rhag ymweld â'r bedd am gyfnod byr. Bydd y bedd yn cael ei glirio a'i adael yn daclus ar ôl yr angladd.

Bydd y Cyngor yn monitro gwaith y Trefnydd Angladdau ac yn gweithredu mewn modd sydd yn briodol a pherthnasol os bydd gwaith y Trefnydd Angladdol yn annerbyniol.

Gall unrhyw berson / bersonau sy'n torri Rheolau a Rheoliadau Mynwentydd yn fwriadol fod yn destun erlyniad troseddol o dan ddarpariaethau Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977.

Os bydd unrhyw anghydfod yn codi ynghylch bwriadau, ystyr neu ddehongliad o'r Rheolau a'r Rheoliadau hyn, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor yr hawl i adolygu y rheolau a'r ffioedd fel bo'r angen.